# Cyngor Wrecsam

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

This document is also available in English /

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd

# Cynnwys

**Rhagarweiniad ac Ardystiad**

**Adran 1 Adnabod trefniadau llywodraethu allweddol**

1.1 Disgrifiad o'n trefniadau llywodraethu.

**Adran 2 Arfarnu mor effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu**

2.1 Effeithiolrwydd y drefn sicrwydd sy'n sail ar gyfer y drefn arfarnu.

2.2 Effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu wrth gyfrannu at gyflawni canlyniadau cynaliadwy a dilyn y saith o egwyddorion llywodraethu da (A-G) ac adnabod problemau llywodraethu arwyddocaol.

**Adran 3 Problemau Arwyddocaol a Chamau Gweithredu yn ystod 2023-24**

3.1 Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â phroblemau arwyddocaol a nodwyd yn Natganiad y llynedd.

**Adran 4 Problemau Arwyddocaol a Chamau Gweithredu ar gyfer 2024-25**

4.1 Cynllun gweithredu i fynd i'r afael â phroblemau llywodraethu arwyddocaol yn y flwyddyn i ddod.

# Rhagarweiniad ac Ardystiad

Mae llywodraethu corfforaethol yn cyfeirio at y prosesau a ddefnyddir i gyfarwyddo sefydliadau fel y Cyngor, eu rheoli, eu harwain a'u dal i gyfrif. Mae a wnelo hyn hefyd â diwylliant a gwerthoedd – y ffordd y mae aelodau etholedig a gweithwyr yn meddwl ac yn gweithredu.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i egwyddorion llywodraethu da fel y'u pennir yn y ddogfen *Delivering Good Governance in Local Government: Framework (2016)* – gwneud y pethau iawn yn y ffordd iawn, mewn ffordd sy'n amserol, yn gynhwysol, yn agored, yn onest ac yn atebol. Mae'n cydnabod fod ganddo ddyletswydd i sefydlu trefniadau cadarn a phriodol ar gyfer llywodraethu ei fusnes ac yn ymrwymo i gadw ei drefniadau llywodraethu dan adolygiad a'u gwella'n gyson gydol y Cyngor.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n mynnu bod pob awdurdod lleol yn mynd ati o leiaf unwaith y flwyddyn i adolygu ei drefniadau rheoli mewnol a chyhoeddi datganiad ynglŷn â'r adolygiad yn ei Ddatganiad Cyfrifon.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, felly, yn asesu i ba raddau y cydymffurfiodd y Cyngor â'i God Llywodraethu yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, y modd y bu iddo fonitro ac arfarnu hynny yn ystod y flwyddyn, ac a yw'r trefniadau'n dal yn addas at y diben.

Mae'r adolygiad yn rhoi sicrwydd digonol yn gyffredinol y bernir bod ein trefniadau'n dal yn addas at y diben, yn unol â gofynion y fframwaith llywodraethu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Canfuwyd cyfleoedd i gynnal a datblygu ein trefniadau llywodraethu a bydd y camau gweithredu rydym wedi cytuno arnynt, y mae ein Uwch Dîm Arwain yn gyfrifol amdanynt, yn destun adolygiad bob chwe mis ac adroddir ynghylch hynny i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Llofnodwyd, ar ran Cyngor Wrecsam:

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Pritchard** | **Ian Bancroft** |
| **Arweinydd (Mai 2024)** | **Prif Weithredwr (Mai 2024)** |

# Adran 1 - Adnabod trefniadau llywodraethu allweddol

### 1.1 Disgrifiad o'n trefniadau llywodraethu

Mae Cod Llywodraethu'r https://www.wrecsam.gov.uk/service/llywodraethu-hunanasesu Cyngor yn datgan mor bwysig yw trefniadau llywodraethu corfforaethol da i'r Cyngor ac mae'n nodi ein fframwaith llywodraethu ein hunain. Mae'n seiliedig ar y saith o 'egwyddorion craidd' a bennir yn *Delivering Good Governance in Local Government: Framework (2016)*, sydd wedi'u llunio i fod yn sail ar gyfer trefniadau llywodraethu'r holl gyrff sector cyhoeddus.

**Cod Llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

**Wrth ymrwymo i lywodraethu da, dilynwn yr egwyddorion craidd a ganlyn:**

A. Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.

B. Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n drylwyr â budd-ddeiliaid

C. Diffinio canlyniadau o ran buddion cynaliadwy yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

D. Pennu'r ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau a fwriedir yn y ffordd orau bosib.

Datblygu gallu'r Cyngor i gyflawni, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo.

F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus.

G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae ein cod yn manylu ynghylch y trefniadau rydym wedi'u sefydlu i sicrhau ein bod yn glynu at yr egwyddorion craidd hynny. Mae'n egluro'r systemau a phrosesau y caiff y Cyngor eu cyfarwyddo a'u rheoli ganddynt ac yn eu defnyddio i fod yn atebol i'r gymuned, meithrin cyswllt â hi a'i harwain. Mae hefyd yn nodi ein gwerthoedd a'n diwylliant.

Gydol y Cyngor, mae amryw gyrff a strwythurau sy'n cyflawni swyddogaethau pwysig wrth ddatblygu'r fframwaith llywodraethu a'i gynnal:

**Y Cyngor**

- Pob un o'r 56 o Aelodau Etholedig
- Cymeradwyo Cynllun y Cyngor
- Cymeradwyo'r Cyfansoddiad, polisïau a fframweithiau ariannol

Cylch gorchwyl – Adran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Y Bwrdd Gweithredol**

- Corff penderfynu pennaf y Cyngor
- Mae'n cynnwys Arweinydd y Cyngor ac Aelodau Arweiniol sy'n gyfrifol am bortffolios penodol
- Cylch gorchwyl – Adran 5 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddogion Llywodraethu Allweddol**

Mae'r Cyfansoddiad yn pennu swyddogaethau swyddogion llywodraethu allweddol, gan gynnwys swyddi statudol 'Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig' (y Prif Weithredwr), y 'Swyddog Monitro' (Prif Swyddog – Llywodraethu a Chwsmeriaid) a'r 'Swyddog Adran 151' (Prif Swyddog – Cyllid a TGCh) ac yn egluro cyfrifoldebau'r swyddogion hynny wrth sicrhau y sefydlir prosesau sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau statudol yn ogystal â darparu cyngor i Aelodau, swyddogion a phwyllgorau ynghylch materion rheoli staff, cyllid, y gyfraith a llywodraethu moesegol.

**Byrddau Blaenoriaethau**

- Canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor fel y'u pennir yng Nghynllun y Cyngor
- Adrodd yn ôl i aelodau etholedig drwy'r drefn Adroddiadau Perfformiad Corfforaethol.

**Y Pwyllgor Safonau**

- Hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad gan aelodau etholedig a chyfetholedig ac yn monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau
- Cylch gorchwyl – Adran 8 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Pwyllgorau Craffu**

- Maent yn cynnwys aelodau etholedig nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol
- Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad y Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol
- Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad cyrff cyhoeddus eraill a phartneriaethau fel y bo'n briodol
- Cylch gorchwyl – Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Yr Uwch Dîm Arwain a Rheolwyr**

- Yn gyfrifol am ddatblygu fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor, ei gynnal a'i weithredu
- Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol a llywodraethu effeithiol y Cyngor.

**Grŵp Swyddogion Llywodraethu**

- Adolygu mor effeithiol yw'r fframwaith llywodraethu yn barhaus
- Yn atebol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Uwch Dîm Arwain.

**Archwilio Mewnol**

- Cynnig barn annibynnol a gwrthrychol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu
- Cynnal rhaglen o archwiliadau ar sail risg, gan gynnwys gweithgarwch gwrth-dwyll ac ymchwiliadau
- Adnabod meysydd i'w gwella wrth reoli risg
- Yn atebol i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Pwyllgor statudol sy'n darparu sicrwydd annibynnol ynghylch amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor
- Mae'n ystyried archwiliadau allanol, arolygiadau ac adroddiadau gan gyrff rheoleiddio, yn ogystal ag adroddiad Hunanasesu'r Cyngor
- Cylch gorchwyl – Adran 9 o Gyfansoddiad y Cyngor
- Sicrwydd allanol ac annibynnol ynghylch datganiadau ariannol y Cyngor a'r trefniadau a sefydlwyd i sicrhau y defnyddir adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn i'r Cyngor gyflawni'r canlyniadau y mae'n eu haddo a'i gyfrifoldebau statudol.

**Archwilio, rheoleiddio, ac arolygu allanol**

- Sicrwydd allanol ac annibynnol ynghylch datganiadau ariannol y Cyngor a'r trefniadau a sefydlwyd i sicrhau y defnyddir adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn i'r Cyngor gyflawni'r canlyniadau y mae'n eu haddo a'i gyfrifoldebau statudol.

# Adran 2 – Arfarnu mor effeithiol yw’r trefniadau llywodraethu

Mae’n ofynnol i’r Cyngor gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y trefniadau a sefydlwyd i hyrwyddo pob un o’r egwyddorion llywodraethu da a chyfrannu at gyflawni canlyniadau cynaliadwy.  Wrth adolygu, mae’r Cyngor yn ystyried y sicrwydd a ddarperir gan amryw ffynonellau, sydd wedi’u crynhoi ym mharagraff 3.1 isod.

Trefnwyd yr adolygiad blynyddol ar sail yr egwyddorion llywodraethu craidd, gan ystyried datblygiadau yn ystod y flwyddyn, adnabod bylchau a chyfleoedd i wella. Defnyddiwyd yr adolygiad hwnnw’n sail ar gyfer yr asesiad cyffredinol hwn o’n trefniadau llywodraethu ac i adnabod problemau llywodraethu o bwys ar gyfer 2024-25.  Cyflwynir y casgliadau a’r problemau arwyddocaol ym mharagraff 3.2 isod.

Nid yw’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn rhoi diffiniad swyddogol o’r hyn sy’n cyfrif fel ‘problem arwyddocaol’ ond yng nghyd-destun Cyngor Wrecsam, credwn y gellir diffinio problem arwyddocaol fel hyn:

- Rhwymedigaethau newydd / heriau newydd oherwydd effaith y pandemig, a dychwelyd i’r drefn arferol;
- Problemau sy’n tanseilio amcanion y sefydliad neu’n bygwch atal eu cyflawniad;
- Methiant arwyddocaol i lynu at yr egwyddorion (ac is-egwyddorion) llywodraethu da;
- Maes sy’n peri pryder arwyddocaol i arolygydd, archwilydd allanol neu gorff rheoleiddio;
- Maes y mae’r Pennaeth Archwilio Mewnol, un o’r swyddogion statudol, yn argymell ei gynnwys neu broblem y bu gofyn i’r Prif Swyddog Cyllid neu’r Swyddog Monitro weithredu’n ffurfiol yn ei chylch;
- Problem sy’n berthnasol i’r sefydliad cyfan y bu gofyn cydweithio i fynd i’r afael â hi;
- Problem a arweiniodd at gryn ddiddordeb cyhoeddus neu niweidio enw da’r Cyngor yn ddifrifol; neu
- Problem y bu gofyn dargyfeirio adnoddau sylweddol ar ei chyfer.

## 2.1 Effeithiolrwydd y drefn sicrwydd sy’n sail ar gyfer y drefn arfarnu.

Ceir braslun isod o’r prif ffynonellau sicrwydd a ystyriwyd wrth gynnal yr adolygiad a’u heffeithiolrwydd yn ystod 2023-24

**Archwilio mewnol a sicrwydd ar sail archwilio**
Mae Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd annibynnol sy’n ymgymryd â gwaith a fydd yn llywio barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch digonolrwydd cyffredinol fframwaith y Cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, gan gynnwys ei holl weithrediadau, adnoddau a gwasanaethau a’i gyfrifoldebau yng nghyswllt chyrff eraill.  I wneud hynny, mae’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn trefnu rhaglen o archwiliadau (Cynllun Archwilio) yn unol ag asesiad o anghenion sy’n seiliedig ar risg.

Mae trefniadau adrodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (y Safonau).

Derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad ynghylch Cynllun Archwilio Mewnol 2023-24 ym mis Chwefror 2023 . Bwriadwyd cynnal 44 o archwiliadau a sefydlwyd cynllun wrth gefn fel y gellid cyflawni gwaith heb ei gynllunio yn ôl yr angen. Yn 2023-24, cwblhawyd 93% o'r Cynllun Archwilio Mewnol yn ogystal â chyflawni 100% o'r gwaith a gododd y tu hwnt i'r cynllun. Cwblhawyd 46 o archwiliadau.

Mae'r adroddiadau chwarterol ynghylch yr holl waith archwilio mewnol a wnaed yn amlygu meysydd lle ceir gwendidau arwyddocaol yn fframwaith y sefydliad ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ac fe'u cyflwynir i'r Uwch Dîm Arwain a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol a chyfeiriadau at unrhyw gyfyngu ar gwmpas**

Ar sail y canfyddiadau archwilio mewnol, cynlluniau gweithredu y mae rheolwyr yn eu darparu a sicrwydd o ffynonellau eraill, gan gynnwys Archwilio Allanol, Rheoli Risg, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yw, **yn y rhan helaeth o feysydd yr ymchwiliwyd iddynt, bod fframwaith y Cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol at ei gilydd yn ddigonol ac effeithiol wrth gyflawni amcanion y Cyngor.**

Drwy waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol, amlygwyd bod rheoli'r drefn o gomisiynu lleoliadau digontract ym maes gofal cymdeithasol i blant yn un o'r meysydd cyffredinol i'w hystyried yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24. Mae hynny'n bwysig oherwydd y disgwyliadau uchel a'r cynnydd yn y galw a'r costau yn y meysydd hynny, ac mae'n gyson â'r sicrwydd a gafwyd gan y grwpiau tasg a gorffen ar reolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn.

Hefyd, amlygodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y maes penodol isod fel un a oedd angen sylw pellach er mwyn sicrhau y cydymffurfir â fframwaith y Cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol:

- Trefniadau monitro ac adrodd ar gyfer gweithwyr yn cwblhau hyfforddiant gorfodol.

Rhoddir cyfrif llawn o hyn yn Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10fed Hydref 2024

**Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac yn craffu'n strategol ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail ar gyfer llywodraethu da a chyflawni safonau ariannol. Cyfarfu'r Pwyllgor yn unol â'i amserlen gydol y flwyddyn a bu'n adolygu ei raglen waith er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei gylch gorchwyl, ymgymryd â gweithgarwch hyfforddiant a datblygu perthnasol a chynnal amryw weithdai i arfarnu ei effaith a'i effeithiolrwydd.

Mae'r Cyngor yn dal y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyfrif drwy adroddiad blynyddol. Mae'r adroddiad blynyddol yn rhoi cyfrif manwl o'r modd y mae'r Pwyllgor

wedi cyflawni ei Gylch Gorchwyl. [Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23.] (Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2023-24 ym mis Medi 2024)

**Archwilio ac arolygu allanol**
Mae archwilio ac arolygu allanol yn allweddol i'n fframwaith llywodraethu. Yn ystod 2023/24, derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (a phwyllgorau eraill fel y bo'n briodol) adroddiadau ynghylch adolygiadau 'lleol' gan Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn a darparwyd crynodeb o'r holl adolygiadau eraill (rhanbarthol, cenedlaethol) mewn adroddiad chwemisol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Wrth ddod at ddiwedd 2023/24, diwygiwyd y broses hon ar sail canllawiau a ddarparodd Archwilio Cymru i awdurdodau lleol: yn 2024/25, bydd pob adolygiad a'r ymateb iddynt yn destun adroddiad penodol, a chyflwynir adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynglŷn â'r cynnydd a wnaed wrth weithredu argymhellion.

Cynhelir Adolygiad Asesu Sicrwydd a Risg bob blwyddyn, sy'n rhoi cyfle i'r Cyngor a'i brif gyrff rheoleiddio ddod i farn gyffredinol ynghylch y risgiau, heriau a chyfleoedd allweddol y mae'r awdurdod yn eu hwynebu, ac mae'n cyfrannu at y gwaith archwilio ac arolygu a gynllunnir ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Archwilio Cymru**

Mae ein Harchwiliwr Allanol, Archwilio Cymru, yn asesu trefniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni gwelliant parhaus, gwerth am arian, cydymffurfiaeth â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a sicrhau y rhoddir cyfrif priodol o arian y cyhoedd.

Ardystiodd Archwilio Cymru ei fod wedi rhoi barn gywir, deg a diamod ynghylch ein datganiadau ariannol ar gyfer 2021/22. Nid yw Archwilio Cymru wedi ardystio ei farn ynghylch ein datganiadau ariannol ar gyfer 2022/23 eto, gan y bu oedi oherwydd addasiadau technegol yn deillio o waith cenedlaethol ar sylfeini prisiadau hanesyddol. Bu sylwadau cyffredinol Archwilio Cymru'n gadarnhaol, fodd bynnag, a disgwylir y byddant wedi ardystio'r farn derfynol erbyn mis Hydref 2024.

Mae Cynllun Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru'n pennu'r rhaglen waith ar gyfer pob blwyddyn ar sail ei asesiad o'r risgiau ariannol a gweithredol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.  Cyhoeddir canlyniadau'r gwaith hwnnw mewn Crynodeb Archwilio Blynyddol. Cyhoeddir crynodeb flynyddol 2023 ar ôl ardystio ein datganiadau ariannol ar gyfer 2022/23.

Bu **Estyn** yn dal i fonitro'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Ar Ôl Arolygu a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn [Arolygiad Estyn yn 2019] o wasanaethau addysg y Cyngor.  Cafwyd sylwadau cadarnhaol yn sgil ymweliad monitro ym mis Tachwedd 2022 yn cydnabod y gwaith arfarnu'r oedd y Cyngor wedi'i wneud. Yn dilyn arolygiad llawn yn haf 2023, barnwyd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol wrth weithredu'r argymhellion yn sgil arolygiad craidd Estyn yn 2019 fel y gellid ei symud o'r categori dilynol 'yn peri pryder arwyddocaol', a dim ond un ysgol uwchradd sy'n dal yn destun mesurau arbennig. Mae'r Cynllun Gwella â Blaenoriaeth wedi disodli'r Cynllun Gweithredu Ar

Ôl Arolygu bellach, a bydd hwnnw'n sail ar gyfer cynlluniau gwella'r Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar nes 2025.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Arolygiad Arfarnu Perfformiad o wasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant ym mis Mehefin 2022. Yn yr adroddiad yn sgil yr arolygiad hwnnw, cydnabuwyd bod y gwasanaethau oedolion a phlant ill dau wedi gwella ers 2019 a bod y Cyngor yn ymrwymo i welliant parhaus. Wedi'r Arolygiad Arfarnu Perfformiad, ymwelodd AGC â'r Cyngor rhwng 24 Hydref a 2 Tachwedd 2023 er mwyn gweld i ba raddau'r oedd pethau wedi gwella. Cyhoeddodd AGC ei ganfyddiadau o'r ymweliad mewn llythyr ym mis Ionawr 2024. Cydnabuwyd yn y llythyr hwnnw'r gwelliannau a wnaed mewn amryw feysydd yn y ddau wasanaeth ers arolygiad 2022, a gofynnwyd bod y Cyngor yn dal ati i wella. Roedd y llythyr yn cynnwys argymhellion manwl ar lefelau gweithredol a systemig yn y naill wasanaeth a'r llall, ynghyd â chais i'r Cyngor ganolbwyntio mwy ar ddal i wella'r gwasanaethau oedolion.

Cyflwynwyd adroddiadau monitro ar gyfer pob un o'r arolygiadau uchod i bwyllgorau craffu, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cynhaliwyd yr **Adolygiad Asesu Sicrwydd a Risg Blynyddol** (Archwilio Cymru, Estyn ac AGC) ym mis Ionawr 2023 a bu hynny'n sail ar gyfer y gwaith archwilio a rheoleiddio yn 2023-24.

Darparwyd crynodeb o'r holl adroddiadau rheoleiddio allanol mewn adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2023 a mis Chwefror 2024. Diwygiwyd trefn adrodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddiwedd 2023/24 mewn ymateb i'r canllawiau a roes Archwilio Cymru i awdurdodau lleol. Bellach, bydd pob adolygiad a'r ymateb iddo'n destun adroddiad penodol, a chyflwynir adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynglŷn â'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r argymhellion.

**Cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol**
Un o nodau allweddol y Cod Rheolaeth Ariannol yw gwella cydnerthedd ariannol sefydliadau drwy wreiddio gwell safonau rheoli ariannol. Cyflawnwyd camau gweithredu ym mis Gorffennaf 2022 i gydymffurfio'n llwyr â'r Cod.

**Sicrwydd gan Brif Swyddogion**
Mae Prif Swyddogion yn asesu trefniadau llywodraethu eu gwasanaethau bob blwyddyn ac yn llunio Datganiadau Sicrwydd ynghylch Rheolaethau Mewnol. Adolygir y datganiadau hynny i amlygu unrhyw broblemau llywodraethu y mae angen mynd i'r afael â hwy, boed hynny mewn gwasanaeth penodol neu gydol y sefydliad. Yn sgil adolygiad o'r sicrwydd gan Brif Swyddogion eleni, ni amlygwyd unrhyw broblemau systemig i'w cynnwys fel problemau arwyddocaol.

**Adolygu mor effeithiol yw ein trefniadau'n barhaus - Grŵp Swyddogion Llywodraethu**
Mae'r Cyngor yn ymrwymo i wella trefniadau llywodraethu'n barhaus gydol y sefydliad, drwy weithredu trefn o arfarnu ac adolygu'n barhaus cyn cynnal adolygiad blynyddol sy'n sail ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp Swyddogion Llywodraethu'n cynnwys swyddogion sy'n arwain ar feysydd allweddol o'r fframwaith llywodraethu a chynrychiolwyr amryw wasanaethau, ac mae'n cwrdd

bob tri mis i adolygu'r trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd ar sail egwyddorion craidd, adnabod meysydd i'w gwella a monitro ac adrodd ynghylch y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp Swyddogion Llywodraethu'n adrodd i'r Uwch Dîm Arwain a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn chwarter 2 a chwarter 4 (adolygiad blynyddol). Mae'r Grŵp Swyddogion Llywodraethu'n un o'r cyfranwyr pwysicaf i'r adolygiad blynyddol a'r gwaith o lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Rheoli Risg**
Mae'r Prif Swyddogion ac uwch-reolwyr dynodedig yn gyfrifol am adnabod y risgiau i gynllunio a darparu gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, a chofnodir y risgiau hynny yng nghofrestri risgiau gwasanaethau, ynghyd â'r dulliau sydd ar waith i'w rheoli. Rheolwyd risg yn unol â'r bwriad yn ystod 2021-22.

Cyflwynir adroddiadau ynghylch y cofrestri risg ddwywaith y flwyddyn i'r Uwch Dîm Arwain a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r Pwyllgor yn rhoi sylw manwl i effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg.

Mae Byrddau Blaenoriaeth y Cyngor hefyd wedi nodi'r risgiau hynny mewn cofrestri risgiau gwasanaethau sy'n ymwneud â chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, fel bod modd rheoli'r rheiny.

## 2.2 Arfarnu mor effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu wrth gyfrannu at gyflawni canlyniadau cynaliadwy a dilyn yr egwyddorion llywodraethu da, ac adnabod problemau llywodraethu arwyddocaol.

Mae'r adran hon yn ymdrin â phob un o'r saith o egwyddorion llywodraethu da (A-G) a'u diffiniadau, ac yn asesu ein heffeithiolrwydd ac unrhyw broblemau arwyddocaol a nodwyd i'w cynnwys yng nghynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

### Egwyddor A: Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.

"Mae sefydliadau llywodraeth leol yn atebol, nid yn unig am swm eu gwariant, ond hefyd am y modd y defnyddiant yr adnoddau yn eu gofal. Mae hynny'n cynnwys bod yn atebol am allbynnau, yn gadarnhaol a negyddol, a'r canlyniadau maent yn eu cyflawni. Maent yn gyfrifol yn gyffredinol am ddiogelu budd y cyhoedd drwy gyflawni gofynion mewn deddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol eu bod oll yn medru dangos priodoldeb eu camau gweithredu ymhob maes gweithgarwch a bod ganddynt weithdrefnau i annog a gorfodi cydymffurfiaeth â gwerthoedd moesegol a pharch at reol y gyfraith." (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol)

**Asesu:**

**Mae gan y Cyngor adnoddau a phrosesau da ar waith i gynnal safonau ymddygiad a safonau moesegol uchel a chadw at reol y gyfraith. Mae angen dal i hyrwyddo a monitro cyfranogiad o gefnogaeth a hyfforddiant a sicrhau y defnyddir hynny'n effeithiol wrth hyrwyddo egwyddorion llywodraethu da. Mae'r Cyngor yn ymdrechu i greu sefydliad cefnogol a pharchus lle mae**

**Aelodau Etholedig a swyddogion yn meithrin dealltwriaeth dda o'u swyddogaethau a chyfrifoldebau.**

**Problemau arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:**

1: Gwella'r diwylliant, gwerthoedd, ymddygiad a ffyrdd o weithio mewn cyfarfodydd cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu i wreiddio'r gwerthoedd ac ymddygiadau newydd a gwella ffyrdd o weithio.

2: Ystyried goblygiadau penderfyniad y Cyngor i beidio â mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol a'r penderfyniadau a chamau cyfreithiol dilynol, a lliniaru arnynt.

## Egwyddor B: Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n drylwyr â budd-ddeiliaid.

"Gweithredir llywodraeth leol er budd y cyhoedd, ac felly dylai sefydliadau sicrhau bod eu gweithgareddau'n dryloyw. Dylid defnyddio sianeli cyfathrebu ac ymgynghori clir a dibynadwy er mwyn meithrin cyswllt yn effeithiol â'r holl grwpiau o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a sefydliadau." (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol)

**Asesu:**

**Mae'r Cyngor yn dal i gynnwys y cyhoedd a'i fudd-ddeiliaid wrth gynllunio'i wasanaethau ac mae ganddo brosesau da ar waith i wreiddio ei egwyddorion ynglŷn â chyfranogi gydol y sefydliad. Mae gwaith yn dal i fynd yn ei flaen i wella cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae gan y Cyngor hanes ardderchog o sicrhau bod ei wybodaeth yn hygyrch. Mae'r drefn benderfynu'n dal yn agored a thryloyw a chaiff cyfarfodydd pwyllgorau eu gwe-ddarlledu a'u cynnal yn unol â Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus y Cyngor.**

**Problemau arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:**

- Dim.

## Egwyddor C: Diffinio canlyniadau o ran buddion cynaliadwy yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

"Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau llywodraeth leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio canlyniadau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hyrwyddo dibenion yr awdurdod, cyfrannu at fuddion a chanlyniadau a fwriadwyd, ac aros o fewn terfynau ei awdurdod a'i adnoddau. Mae cyfraniad pob grŵp o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a sefydliadau, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gael cydbwysedd rhwng galw o wahanol ochrau wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael." (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol)

**Asesu:**

**Ymgorfforwyd darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhrosesau cynllunio'r Cyngor. Datblygwyd amcanion lles y Cyngor (2023-28) ar sail yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy' yn y Ddeddf ac mae'r sefydliad cyfan yn eu dilyn. Mae'r amcanion hynny'n canolbwyntio ar ddatganiadau pendant ynghylch y canlyniadau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cyflawni, ac fe'u hategir gan ddulliau mesur sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddangos y cynnydd a wneir wrth gyflawni'r amcanion. Datblygwyd trefniadau newydd ar gyfer asesu effaith i hybu penderfyniadau da a sefydlir y rheiny yn ystod y flwyddyn i ddod.**

**Problemau arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:**

- Dim.

### Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn y ffyrdd gorau posib.

"Mae cyrff llywodraeth leol yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir drwy ddarparu amrywiaeth o ymyriadau neu ddulliau gweithredu cyfreithiol, rheolaethol ac ymarferol. Mae pennu'r gymysgedd iawn o ddulliau gweithredu'n benderfyniad strategol hollbwysig y mae'n rhaid i gyrff llywodraeth leol ei wneud er mwyn sicrhau y cyflawnir y canlyniadau a fwriedir. Mae'n rhaid bod ganddynt weithdrefnau cadarn ar gyfer penderfynu er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r canlyniadau a bennwyd mewn ffordd sy'n taro'r cydbwysedd gorau rhwng yr amryw fathau o adnoddau sydd eu hangen gan sicrhau bod modd gweithredu'n effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu penderfyniadau a wneir yn gyson er mwyn sicrhau y cyflawnir y canlyniadau i'r eithaf." (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol)

**Asesu:**

**Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi perfformio'n dda yng nghyd-destun yr egwyddor hon. Mae prosesau ar waith i adnabod ymyriadau a'u gweithredu ac i gefnogi gwasanaethau os oes angen adnoddau ychwanegol. Mae *Insight*, y system gorfforaethol newydd ar gyfer rheoli perfformiad a risg, bellach ar waith a bydd yn hybu ein gallu i ddadansoddi ein blaenoriaethau a risgiau, adrodd yn eu cylch a phennu ymyriadau angenrheidiol. Ceir uchelgais cyson i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd cyfredol ac yn y dyfodol, a chanolbwyntir yn bendant ar gydnerthedd ariannol a chynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gynaliadwy yn y tymor hir yng nghyd-destun gwasgfeydd cynyddol ar gyllidebau ac adnoddau.**

**Problemau arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:**

3: Gwreiddio datgarboneiddio gydol y sefydliad.

### Egwyddor E: Datblygu gallu'r Cyngor i gyflawni, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo.

"Mae'n rhaid bod gan y Cyngor strwythurau ac arweinyddiaeth briodol, yn ogystal â phobl â'r sgiliau, cymwysterau ac agweddau iawn i weithredu'n effeithlon ac effeithiol a chyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn unol â'r graddfeydd amser a bennir. Mae'n rhaid iddo sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun a sicrhau y sefydlir polisïau i warantu fod ei reolwyr yn medru gweithredu'r sefydliad cyfan. Gan y bydd unigolion a'r amgylchedd y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo'n newid dros amser, bydd angen datblygu ei allu i gyflawni drwy'r amser, yn ogystal â sgiliau a phrofiad aelodau unigol o staff. Atgyfnerthir yr arweinyddiaeth gan gyfranogiad pobl o amryw wahanol gefndiroedd sy'n adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau." (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol)

**Asesu:**

**Mae'r Cyngor yn dal i weithio i sicrhau bod Wrecsam yn 'Gyflogwr o Ddewis' mewn marchnad dra chystadleuol. Mae'n cydnabod fod angen sicrhau y dylunnir ei Raglen Newid mewn ffordd sy'n ystyriol o'r gwasgfeydd o safbwynt recriwtio a chadw staff, a'i fod yn gallu canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth lle cyfyd gwasgfeydd, yn ôl y gofyn.**

**Mae'r Cyngor yn dal i ddarparu cymorth i'w weithwyr â'u lles, wedi cyflawni'r Safon Iechyd Corfforaethol Aur ym mis Mawrth 2023 yn hynny o beth, a cheir ymrwymiad corfforaethol cryf i les y gweithwyr.**

**Mae'r Cyngor wedi dangos ymrwymiad i ddatblygu Cyngor effeithiol a chynigir amrywiaeth o hyfforddiant i'r aelodau a'r gweithlu; mae wedi adnabod, serch hynny, fod yno risg barhaus yng nghyswllt cyfranogiad aelodau etholedig o gyfleoedd hyfforddiant craidd a hyfforddiant llywodraethu allweddol, a hefyd bod angen mwy o sicrwydd ynghylch hyfforddi'r gweithlu (modiwlau gorfodol).**

**Mae'r Cyngor yn croesawu'r buddion posib o weithio mewn partneriaeth er mwyn cynyddu ei allu i gyflawni amcanion cyffredin a gwella gwasanaethau, ond mae'n cydnabod y gall cymhlethdodau godi wrth geisio sicrhau na chaiff gwaith ei ddyblygu a chyflawni'r gwerth gorau posib am arian.**

**Problemau arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:**

4. Sicrhau y dylunnir ei Raglen Newid mewn ffordd sy'n ystyriol o'r gwasgfeydd o safbwynt recriwtio a chadw staff yn y sefydliad, a bod modd canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth lle cyfyd gwasgfeydd, yn ôl y gofyn.

5. Cynyddu nifer yr Aelodau Etholedig sy'n cyfranogi o hyfforddiant craidd a modiwlau e-ddysgu allweddol ym maes llywodraethu.

### Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus.

"Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod wedi rhoi system rheoli perfformiad effeithiol ar waith a'i fod yn medru cynnal hynny, er mwyn hwyluso cyflawniad y gwasanaethau a

fwriedir yn effeithiol ac effeithlon. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig o'r system honn ac yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Mae'n rhaid cael trefn reoli ariannol gadarn er mwyn gweithredu polisïau a chyflawni'r canlyniadau a fwriedir. Mae'n hanfodol bod gan y Cyngor ddiwylliant a strwythur ar gyfer craffu a bod hynny'n rhan allweddol o wneud penderfyniadau atebol, llunio polisïau ac adolygu." (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol)

**Asesu:**

**Gweithredodd y rhan helaeth o'r trefniadau archwilio mewnol yn unol â'r disgwyl yn ystod y flwyddyn a Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023-24 yw bod fframwaith y Cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyffredinol ddigonol ac effeithiol i gyflawni amcanion y Cyngor yn y rhan fwyaf o feysydd a archwiliwyd. Mae'r corff rheoleiddio wedi mynegi barn ffafriol ynghylch y gwelliannau a wnaed yn ein trefniadau a phrosesau llywodraethu ac eglurder ac amseroldeb ein hagwedd strategol at reolaeth ariannol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Rhaglen Newid er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cynllunio, yn weithredol a gwleidyddol, ar gyfer cyflawni ei flaenoriaethau mewn hinsawdd economaidd heriol.**

**Problemau arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:**

6. Cydnerthedd ariannol oherwydd gwasgfeydd cynyddol ar gyllidebau gwasanaethau oherwydd disgwyliadau uchel a chynnydd yn y galw a'r costau yng nghyd-destun y setliad is a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru.

### Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

"Mae atebolrwydd yn fater o sicrhau bod y bobl sy'n penderfynu ac yn darparu gwasanaethau yn atebol am hynny. Nid yw atebolrwydd effeithiol yn fater o gyflawni camau gweithredu'n unig, ond hefyd yn golygu sicrhau bod y Cyngor yn cynllunio a chyflawni ei weithgareddau'n dryloyw fel bod budd-ddeiliaid yn deall. Mae archwilio mewnol ac allanol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol." (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol)

**Asesu:**

**Dilynodd y Cyngor arferion da gydol y flwyddyn o safbwynt adrodd er tryloywder ac archwilio mewnol, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau corfforaethol yn unol â'r graddfeydd amser a glynu at weithdrefnau i reoli ansawdd adroddiadau, yn ogystal ag adrodd ynghylch effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu a chyhoeddi ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn y pen draw.**

**Problemau arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:**

- Dim.

# Adran 3 Problemau Arwyddocaol a Chamau Gweithredu yn ystod 2023-24

### 3.1 Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â phroblemau arwyddocaol a nodwyd yn Natganiad y llynedd.

**Problem 1: Egwyddor A**

**Diwylliant, gwerthoedd, ymddygiad a ffyrdd o weithio mewn cyfarfodydd cyhoeddus**

**Byrdwn y camau gweithredu:**

- Seminar arweinyddiaeth (Aelodau, Prif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaethau) – canolbwyntio'n gyson ar werthoedd, ymddygiad, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn ogystal â gweithredu rhaglen ddilynol
- Gwreiddio ffyrdd o waith a'u rhannu yn hyfforddiant sefydlu gweithwyr newydd y Cyngor
- Gwreiddio'r gwerthoedd a'r ymddygiad diwygiedig yng Nghynllun newydd y Cyngor
- Codau Ymddygiad.

**Y cynnydd a wnaed yn 2023/24:**

- Mae'r gwerthoedd ac ymddygiad diwygiedig wedi'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor (2023-28)
- Mae'r gwaith i hybu gwerthoedd ac ymddygiad a gomisiynwyd drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn parhau, gan gynnwys hyfforddiant i'r Arweinwyr Grwpiau a'r Prif Weithredwr. Sefydlwyd cyfarfodydd i'r Arweinwyr Grwpiau ac mae'r rheiny'n parhau
- Cynigiwyd rhaglen ddatblygu wedi'i harwain gan Aelodau i wreiddio gwerthoedd corfforaethol gydol y sefydliad, a ddyluniwyd ar y cyd gan yr Arweinwyr Grwpiau, y Prif Weithredwr a chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Trefnwyd y gweithdai cyntaf i aelodau a swyddogion ym mis Gorffennaf 2024. Estynnir y rhaglen i'r holl Aelodau a nifer helaeth o swyddogion, a bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn derbyn adroddiadau ynglŷn â'r cynnydd
- Bu gwelliant cyffredinol mewn gwerthoedd ac ymddygiad ymysg aelodau etholedig mewn cyfarfodydd cyhoeddus erbyn diwedd 2023-24, o gymharu â'r un cyfnod yn 2022-23. Daliwyd i gael rhai trafferthion â chyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio oherwydd ymddygiad cyfranogwyr nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor, sy'n dangos bod angen i'r gwerthoedd ac ymddygiad drosglwyddo i amryw swyddogaethau'r aelodau
- Adlewyrchwyd y pryderon hynny pan gynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau llywodraethu Cyngor Wrecsam, gan ganolbwyntio'n benodol ar y Gwasanaeth Cynllunio (mis Ionawr 2024), a chyflwynodd argymhellion ynghylch cysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion a meithrin dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau. Roedd Archwilio Cymru'n fodlon ag ymateb y Cyngor i'r argymhellion hynny, a oedd yn cynnwys dal i ganolbwyntio ar y

meysydd dan sylw, a bwriedir cynnal gweithdai i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a holl Aelodau'r Cyngor, arfarnu'r angen am ychwaneg o gefnogaeth yn 24-25 a gwaith dilynol sy'n cynnwys archwilio mewnol a chomisiynu cymorth arbenigol
- Mae'r Cyngor yn dal i weithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth ymdrin â chanfyddiadau'r adolygiad a gweithredu'r argymhellion.

**Casgliad Mae hwn yn dal yn faes arwyddocaol i'r Cyngor ei ddatblygu a'r flaenoriaeth yn 2024-25 fydd y gwaith sy'n mynd rhagddo â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chwblhau'r camau gweithredu a gytunwyd i gyflawni argymhellion Archwilio Cymru.**

### Problem 2: Egwyddor A

### Ystyried goblygiadau penderfyniad y Cyngor i beidio â mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol a lliniaru arnynt.

**Byrdwn y camau gweithredu**

- Ymchwilio i ddulliau posib o ymateb i unrhyw benderfyniadau gan Lywodraeth Cymru neu lysoedd barn ynglŷn â'r Cyngor yn peidio â mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol
- Ymchwilio i ddulliau posib o weithio heb Gynllun Datblygu Lleol.

**Cynnydd yn 23/24:**

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Cyngor yn canolbwyntio ar reoli a pharatoi ar gyfer yr heriau ariannol a gweithredol a allai ddeillio o beidio â chael Cynllun Datblygu Lleol. Yn sgil dyfarniad yn yr Uchel Lys, mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2023. Mae apêl yn erbyn y dyfarniad hwnnw'n mynd rhagddo bellach ac felly, er bod gan y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol a'i fod yn medru cynllunio ar sail hwnnw, mae'n dal yn broses anodd a llafurus i weithredu penderfyniadau yng nghyswllt y Cynllun oherwydd gwahaniaeth barn ynglŷn â'i ddilysrwydd.

**Casgliad: Cadw hyn yn broblem arwyddocaol yn 2024-25.**

### Problem 3: Egwyddor D

### Perfformiad ysgolion uwchradd

**Byrdwn y camau gweithredu:**

- Dal i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Ar Ôl Arolygu
- Arolygiad llawn gan Estyn (Haf 2023).

**Y cynnydd a wnaed yn 2023/24:**

Yn sgil yr Arolygiad ym mis Gorffennaf 2023, barnodd Estyn ein bod wedi gwneud cynnydd boddhaol wrth gyflawni'r argymhellion wedi'r Arolygiad Craidd yn 2019 ac o ganlyniad i hynny, fe'n tynnwyd o'r categori dilynol o fod yn peri pryder arwyddocaol.

Mae Cynllun Gwella â Blaenoriaeth wedi disodli'r Cynllun Gweithredu Ar Ôl Arolygu bellach, a bydd hwnnw'n sail ar gyfer cynlluniau gwella'r Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar am y ddwy flynedd nesaf (2023-2025).

Roedd un ysgol uwchradd yn dal yn destun mesurau arbennig ddiwedd 2023-24.

**Casgliad: Gwnaethpwyd cynnydd da. Dilëir hyn fel problem arwyddocaol yn 2024-25.**

## Problem 4: Egwyddor D

## Blaenoriaethu a gwreiddio datgarboneiddio gydol y sefydliad

**Byrdwn y camau gweithredu:**

- Cynllun Arwain yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar gyfer Datgarboneiddio
- Gweithgorau adrannol a gweithdai, ac adnabod swyddogion i arwain ffrydiau gwaith/themâu
- Adrodd ynghylch cynnydd i Fwrdd Datblygu a Datgarboneiddio'r Amgylchedd, Craffu Cartrefi a'r Amgylchedd a'r Bwrdd Gweithredol
- Sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol
- Ystyried adnoddau wrth bennu cyllidebau a chamau gweithredu.

**Y cynnydd a wnaed yn 2023/24:**

- Mae sesiynau'r Uwch Dîm Arwain yn ymchwilio i arweinyddiaeth ac ymatebion strategol ym maes datgarboneiddio wedi cyfrannu at y cynlluniau datgarboneiddio
- Datblygwyd Asesiad o Effaith ar Garbon sydd wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Integredig (ers mis Mai 2024) er mwyn gwreiddio mor bwysig yw datgarboneiddio gydol yr awdurdod
- Mae'r adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Gweithredol yn rhoi datganiad cynhwysfawr o'r sefyllfa ac yn egluro ein blaenoriaethau ar gyfer 2024-25 wrth gynorthwyo â chyflawni argymhellion Archwilio Cymru. Penodwyd swyddogion i arwain themâu a sefydlwyd gweithgorau sy'n adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Datgarboneiddio a'r pwyllgorau craffu
- Ffurfiwyd gweithgor trawsbleidiol sy'n cwrdd bob yn ddeufis
- Ystyriwyd adnoddau ar gyfer datgarboneiddio wrth bennu cyllideb 2024-25. Er mwyn dal i gynhyrchu ac allyrru llai o garbon, yr her fwyaf fydd gwreiddio datgarboneiddio'n llwyr yn narpariaeth feunyddiol y Cyngor ac integreiddio themâu effeithiol yn ein gwaith, gan ddefnyddio cyllidebau presennol y gwasanaethau
- Bydd swyddogion yn ategu hynny drwy ddal i chwilio am ffrydiau ariannu eraill o amryw ffynonellau, er mwyn dal i ddatgarboneiddio ein gweithgareddau fel Cyngor a niwtraleiddio ein hallyriadau carbon ein hunain.

**Casgliad: Mae gwreiddio datgarboneiddio gydol y sefydliad, gan ddefnyddio cyllidebau presennol y gwasanaethau, a dod o hyd i ffynonellau eraill o gyllid ar gyfer hynny, yn dal yn broblem arwyddocaol ar gyfer 24-25.**

## Problem 5: Egwyddor E

## Recriwtio a Chadw Gweithwyr yn Well

**Byrdwn y camau gweithredu:**

- Strategaeth Datblygu'r Sefydliad a'r Gweithlu (Strategaeth Pobl) – a fydd yn cynnwys ffrydiau gwaith i liniaru ar broblemau y mae rhai gwasanaethau'n eu cael wrth recriwtio a chadw staff
- Cynllun Recriwtio a Chadw Staff Gofal Cymdeithasol
- Ffair Swyddi sirol i hyrwyddo cyfleoedd i weithio yn y Cyngor (Mehefin 2023).

**Y cynnydd a wnaed yn 2023/24:**

- Cydnabuwyd mor bwysig yw ein gweithlu drwy nodi 'Cynnal Gweithlu Tra Medrus a Brwdfrydig sy'n canolbwyntio ar Ddarparu Gwasanaethau' yn un o chwech o'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor (2023-27).
- Cafodd y 'Strategaeth Pobl' (Strategaeth Datblygu'r Sefydliad a'r Gweithlu) sêl bendith gan y Bwrdd Gweithredol ar 12 Mawrth 2024 . Mae'r strategaeth yn egluro ein bwriad i sicrhau fod gennym y bobl iawn yn y mannau iawn, eu bod yn meddu ar sgiliau addas ac yn cael cymorth i gyflawni eu potensial fel y gall y Cyngor ddarparu ei wasanaethau. Bydd y gwaith i ddatblygu a chyflawni cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth yn dechrau yn 2024-25 (chwarter 1)
- Rydym wedi dal i hyrwyddo manteision ein dulliau hyblyg/modern o weithio er mwyn sicrhau bod Cyngor Wrecsam yn 'Gyflogwr o Ddewis' mewn marchnad gystadleuol dros ben: rydym wedi dechrau gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau am swyddi gwag gydol y sefydliad. Mae arnom angen dal i ganolbwyntio ein hymdrechion mewn meysydd allweddol fel gofal cymdeithasol a swyddogaethau arbenigol, er enghraifft, wrth i rymoedd y farchnad ddal i beri trafferthion inni.
- Ffurfiwyd grŵp tasg a gorffen yn y gwasanaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw staff, Ffeiriau Swyddi (y Cyngor, Prifysgol Wrecsam a Choleg Cambria) a digwyddiadau eraill i gyflogwyr. Lansiwyd ymgyrch recriwtio newydd ar gyfer ein cynllun Prentisiaethau a Swyddogion yr Amgylchedd Dan Hyfforddiant (yn dechrau fis Medi 24). Mae ein cynllun i gynorthwyo â recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol wedi dwyn ffrwyth wrth i fwy o ymgeiswyr ddod yn eu blaenau ac rydym hefyd wedi sefydlu cynllun tair blynedd llwyddiannus ar gyfer Datblygu Staff yn Fewnol a chynyddu cyflogau
- Yn ôl y rhagolygon ariannol ar gyfer 2024/25 a thu hwnt, nid yw'n eglur eto pa effaith a fydd ar faint y gweithlu a'i allu i gyflawni. Ddiwedd 24-25, sefydlodd y Bwrdd Gweithredol Raglen Newid i gynorthwyo â darparu gwasanaethau a hybu sefydlogrwydd ariannol (2025/26 – 2026/27).
- Bydd cadw staff yn dal yn broblem arwyddocaol yn 24-25 ac mae'n dal yn flaenoriaeth mewn meysydd y mae'n anodd recriwtio iddynt gydol y sefydliad. Bydd amryw gynlluniau'n parhau yn y meysydd hynny i reoli'r risg wrth i'r sefydliad roi'r Rhaglen Newid ar waith.

**Casgliad: Cadw hyn yn broblem arwyddocaol yn 2024-25 a chanolbwyntio ar sicrhau y dylunnir y Rhaglen Newid mewn ffordd sy'n ystyriol o'r gwasgfeydd o safbwynt recriwtio a chadw staff yn y sefydliad, a bod modd canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth lle cyfyd gwasgfeydd, yn ôl y gofyn.**

**Problem 6: Egwyddor E**

**Cynyddu nifer yr Aelodau Etholedig sy'n ymgymryd â hyfforddiant craidd a modiwlau e-ddysgu llywodraethu allweddol**

**Byrdwn y camau gweithredu:**

- Bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Chofrestru a thîm Datblygu'r Gweithlu'n gweithio ag aelodau etholedig i annog gwell cyfranogiad ac atebolrwydd.
- Monitro bob tri mis gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**Y cynnydd a wnaed yn 2023/24:**

- Daliodd tîm Datblygu'r Gweithlu ati i weithio ag aelodau etholedig ac Arweinwyr Grwpiau er mwyn codi proffil yr hyfforddiant craidd ac egluro sut i gael mynediad at y modiwlau e-ddysgu allweddol ym maes llywodraethu.
- Bu rhywfaint o welliant yn ystod y flwyddyn yn ôl yr adroddiadau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ond mae'r niferoedd yn dal yn isel.
- Eir ati yn Chwarter 4 i ddatrys trafferthion y mae aelodau unigol yn eu cael â defnyddio'r porth e-ddysgu.

**Casgliad  Cadw hyn yn broblem arwyddocaol gan fod y nifer sy'n cwblhau'r hyfforddiant craidd a'r modiwlau e-ddysgu allweddol ym maes llywodraethu'n dal yn annerbyniol o isel.**

**Problem 7: Egwyddor F**

Cydnerthedd ariannol oherwydd gwasgfeydd cynyddol ar gyllidebau gwasanaethau oherwydd disgwyliadau uchel a chynnydd yn y galw a'r costau, yn enwedig felly ym maes gofal cymdeithasol.

**Byrdwn y camau gweithredu:**

- Arfarnu prosesau monitro a chynllunio cyllidebau yn sgil amgylchedd economaidd sy'n dal yn heriol
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Adroddiad bob tri mis i'r Bwrdd Gweithredol.

**Y cynnydd a wnaed yn 2023/24:**

- Rhoes Archwilio Cymru farn gadarnhaol ynglŷn â'r gwelliannau yn y trefniadau a phrosesau llywodraethu, yn ogystal ag eglurder ac amseroldeb ein dull strategol ar gyfer 2024/25.
- Aeth y Cyngor ati i gomisiynu adolygiad o dan raglen wella Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn asesu sefyllfa'r gyllideb yn 2023-24 a sicrhau y dysgwyd gwersi o'r sefyllfa ariannol a gododd ddiwedd 2022/23. Derbyniodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad ynglŷn â hyn ym mis Chwefror 2024 – rhoddwyd sicrwydd bod y sylfeini ar gyfer adroddiadau ariannol yn gadarn, ac amlygwyd meysydd lle gellid dysgu gwersi.  Derbyniodd y Cyngor y meysydd hynny gan ymateb yn llawn iddynt a gwneud cynnydd da, gan gynnwys:

    - Canolbwyntio ar lunio gwell rhagolygon o’r galw
    - Canolbwyntio ar Ofal Cymdeithasol ac Amgylcheddol a Thechnegol drwy weithio mewn grwpiau Tasg a Gorffen
    - Rheoli a monitro gwasgfeydd posib yn ystod y flwyddyn
    - Gwella trefniadau adrodd
    - Cymorth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
    - Gwella’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a’i ddiwygio’n rheolaidd.

- Roedd sefyllfa derfynol ein cyllideb ar gyfer 2023/24 yn unol â’r rhagestyniadau a’r strategaeth, a chymeradwywyd cyllideb 2024/25
- Sefydlwyd grwpiau Tasg a Gorffen i ganolbwyntio ar Ofal Cymdeithasol ac Amgylchedd a Thechnegol ac mae’r rheiny’n parhau
- Sefydlwyd Rhaglen Newid i gynorthwyo â darparu gwasanaethau a hybu cynaladwyedd ariannol yn y ddwy flynedd nesaf (gan ganolbwyntio’n bennaf ar 2025/26 a 2026/27, ond gan gynnwys hefyd y targed arbedion heb eu clustnodi yng nghyllideb 2024/25)
- Drwy waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol, amlygwyd bod rheoli’r drefn o gomisiynu lleoliadau digontract ym maes gofal cymdeithasol i blant yn un o’r meysydd cyffredinol i’w hystyried yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24.

**Casgliad  Cadw’r rhain yn broblemau arwyddocaol yn 2024-25.  Mae’r hinsawdd ariannol yn y sector cyhoeddus yn dal yn arbennig o heriol, gan ystyried yr amcangyfrifon diweddaraf o’r cyllid gan y llywodraeth a’r twf arwyddocaol mewn costau a’r galw am wasanaethau.  Mae a wnelo’r gwelliannau a wnaed yn 2023-24 â’r meysydd hynny y mae gennym reolaeth drostynt – mae’r risg i’r Awdurdod sy’n deillio o’r hinsawdd ariannol gyffredinol yn dal yn arwyddocaol.**

### Problem 8: Egwyddor F

### Rheoli contractau (Fframwaith Llywodraethu Iechyd a Diogelwch)

**Byrdwn y camau gweithredu:**Gwaith dilynol gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol.

**Y cynnydd a wnaed yn 2023/24:**

- Bu gwelliant amlwg yn y maes hwn a cheir tystiolaeth bod gweithdrefnau, cydymffurfiaeth a hyfforddiant wedi gwella.
- Rhoes y gwasanaeth Archwilio Mewnol lefel sicrwydd gwell (Melyn) yn 23/24.
- Gwneir mwy o waith ar gydymffurfiaeth fel rhan o gynllun Archwilio Mewnol 2024/25 er mwyn sicrhau y caiff yr arferion eu gwreiddio.

**Casgliad: Gwneir mwy o waith ar gydymffurfiaeth fel rhan o gynllun Archwilio Mewnol 2024/25 er mwyn sicrhau y caiff yr arferion eu gwreiddio, ond nid oes angen cadw hyn yn broblem arwyddocaol yn ôl pob golwg.**

# Adran 4 Problemau Arwyddocaol a Chamau Gweithredu yn ystod 2024-25

### 4.1 Cynllun gweithredu i fynd i'r afael â phroblemau llywodraethu arwyddocaol yn y flwyddyn i ddod.

Adolygir mor effeithiol yw ein trefniadau llywodraethu gydol y flwyddyn a chynhelir adolygiad blynyddol yn y pen draw. Mae'r adolygiad wedi dynodi chwech o broblemau arwyddocaol y bydd yn rhaid mynd i'r afael â hwy yn 2024-25, ynghyd â chamau allweddol i'w cymryd i sicrhau gwelliant.

### Egwyddor A: Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.

**Problem Arwyddocaol 1: Gwella'r diwylliant, gwerthoedd, ymddygiad a ffyrdd o weithio mewn cyfarfodydd cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu i wreiddio'r gwerthoedd ac ymddygiadau newydd a gwella ffyrdd o weithio.**

Risg gysylltiedig

C09 - Ceir risg o ansefydlogi'r Cyngor oherwydd digwyddiadau neu ddatblygiadau gwleidyddol (mewnol neu allanol)

- GC 008 – Bod aelodau neu swyddogion yn torri codau moesegol.

Camau lliniaru

- Dal i weithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth wreiddio gwerthoedd ac ymddygiadau yn ogystal â chydraddoldeb, amrywiaeth a chyfranogiad gydol y sefydliad
- Cyflawni'r camau gweithredu a gytunwyd yn unol ag argymhellion Archwilio Cymru yn yr 'Adolygiad o drefniadau llywodraethu Cyngor Wrecsam, gan ganolbwyntio'n benodol ar y Gwasanaeth Cynllunio' (Ionawr 2025):
- Argymhelliad 1: Sicrhau bod Aelodau'n cydymffurfio â'r holl bolisïau a gweithdrefnau ynghylch ymddygiad a'u bod yn llwyr ystyried y risgiau o weithredu'n groes i gyngor swyddogion proffesiynol.
- Argymhelliad 2: Sicrhau bod Aelodau'n dangos dealltwriaeth bod swyddogaethau a chyfrifoldebau'n amrywio ymysg gwahanol bwyllgorau'r Cyngor a'u bod yn cadw at y swyddogaethau hynny, er mwyn sicrhau bod y trafodaethau mewn cyfarfodydd pwyllgorau'n berthnasol ac yn gyson â diben y pwyllgor dan sylw.

**Problem Arwyddocaol 2 - Ystyried goblygiadau penderfyniad y Cyngor i beidio â mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol a'r penderfyniadau a chamau cyfreithiol dilynol, a lliniaru arnynt.**

Risg gysylltiedig

- C07 - Mae risg y bydd y Cyngor yn methu â chydymffurfio a'i ofynion statudol a llywodraethu.

Camau lliniaru

- Penodi Bargyfreithiwr Cynllunio a cheisio cyngor ganddo wrth ymdrin â'r apêl.

## Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn y ffyrdd gorau posib.

**Problem Arwyddocaol 3 - Gwreiddio datgarboneiddio gydol y sefydliad**

Risg gysylltiedig

- C04 - Ceir risg y bydd adnoddau refeniw a chyfalaf yn annigonol i gyflawni blaenoriaethau a nodwyd a bodloni rhwymedigaethau ar adeg pan fo galw cynyddol am wasanaethau.

Camau lliniaru

- Dal i integreiddio themâu datgarboneiddio yn narpariaeth feunyddiol y Cyngor, gan ddefnyddio cyllidebau presennol y gwasanaethau
- Canfod ffrydiau ariannu eraill o amryw ffynonellau, er mwyn dal i ddatgarboneiddio ein gweithgareddau fel Cyngor a niwtraleiddio ein hallyriadau carbon ein hunain
- Adolygu'r modd y mesurir y canlyniadau sy'n deillio o ddatgarboneiddio er mwyn hybu ein gallu i farnu mor effeithiol yw ein gwaith yn hynny o beth
- Dal i gydweithio â phartneriaid ledled y rhanbarth a thrwy Gymru ar gynlluniau er budd pawb i leihau allyriadau carbon yn y Cyngor, ein cymunedau a thrwy Gymru gyfan.

## Egwyddor E: Datblygu gallu'r Cyngor i gyflawni, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo.

Problem 4 - Sicrhau y dylunnir ei Raglen Newid mewn ffordd sy'n ystyriol o'r gwasgfeydd o safbwynt recriwtio a chadw staff yn y sefydliad, a bod modd canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth lle cyfyd gwasgfeydd.

Risg gysylltiedig

- C05 - Ceir risg nad yw'r Cyngor yn meddu ar y wybodaeth, sgiliau, gallu a'r diwylliant i foderneiddio er mwyn dal i gyflawni ei flaenoriaethau a'i gyfrifoldebau.

Camau lliniaru

- Trefniadau llywodraethu'r Rhaglen Newid – sicrhau bod yr achosion busnes ar gyfer unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth yn ystyried yr effaith, gan gynnwys y meysydd hynny lle nodwyd gwasgfeydd o safbwynt recriwtio a chadw staff. (Chwarter 1)
- Camau i gynorthwyo â recriwtio a chadw staff mewn swyddi cynllunio penodol (Chwarter 2)
- Datblygu'r cynlluniau recriwtio a chadw presennol ym maes gofal cymdeithasol er mwyn dal i gael effaith gadarnhaol.
- Dal i weithio i sicrhau bod Wrecsam yn 'Gyflogwr o Ddewis'.
- Sefydlu a lansio rhaglen hyfforddiant a datblygu i reolwyr i gynorthwyo â recriwtio a chadw gweithwyr. (Hydref 2024)

**Problem Arwyddocaol 5 - Cynyddu nifer yr Aelodau Etholedig sy'n cyfranogi o hyfforddiant craidd a modiwlau e-ddysgu allweddol ym maes llywodraethu**

Risg gysylltiedig

- C05 - Ceir risg nad yw'r Cyngor yn meddu ar y wybodaeth, sgiliau, gallu a'r diwylliant i foderneiddio er mwyn dal i gyflawni ei flaenoriaethau a'i gyfrifoldebau

Camau lliniaru

- Monitro bob tri mis gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
- Rhannu gwybodaeth am y sawl sydd wedi cwblhau'r modiwlau â'r Arweinwyr Grwpiau.
- Bydd tîm Datblygu'r Gweithlu'n rhoi blaenoriaeth i dri o fodiwlau bob chwarter i'r aelodau eu cwblhau, gyda'r nod o gwblhau'r holl fodiwlau e-ddysgu allweddol ym maes llywodraethu erbyn pedwerydd chwarter 2024/25.
- Dal i gefnogi aelodau (sesiynau galw heibio bob mis a chymorth i ddefnyddio'r Porth Dysgu).

## Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus.

Problem Arwyddocaol 6 - Cydnerthedd ariannol oherwydd gwasgfeydd cynyddol ar gyllidebau gwasanaethau oherwydd disgwyliadau uchel a chynnydd yn y galw a'r costau yng nghyd-destun y setliad is a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru.

Risg gysylltiedig

- C04 - Ceir risg y bydd adnoddau refeniw a chyfalaf yn annigonol i gyflawni blaenoriaethau a nodwyd a bodloni rhwymedigaethau ar adeg pan fo galw cynyddol am wasanaethau

Camau lliniaru

- Roedd y Rhaglen Newid yn canolbwyntio ar arbedion heb eu clustnodi yn 24-25.
- Rhaglen Newid 2025/26 – 26/27.
- Dal ati â'r gwelliannau a wnaed mewn trefniadau llywodraethu ac adrodd yn ystod 2023-24, gan gynnwys y trefniadau Tasg a Gorffen ym meysydd Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd.
- Arfer gwell rheolaeth ar gomisiynu lleoliadau digontract ym maes gofal cymdeithasol i blant.